# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 09-10 (p2) : 22 Ebrill 2010**

## Yr Agenda Trawsnewid: Materion o ddiddordeb i'r Pwyllgor

### Cefndir

Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymrwymedig i ehangu ar ein darpariaeth 14 - 19, gan ystyried anghenion pob dysgwr. Rydym wedi sefydlu perthynas weithio da gyda Choleg y Barri, Ysgol Gyfun Llanhari, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Paratoi Milwrol Caerdydd wrth ddatblygu ein darpariaeth alwedigaethol ar gyfer ein disgyblion blwyddyn 10 i 13. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a Choleg y Barri er mwyn sicrhau partneriaeth weithredol wedi sefydlu Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ym mis Medi 2000. Ffrwyth y trafodaethau yma oedd darpariaeth lwyddiannus cwrs Trin Gwallt a Phrydferthwch ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 ym 2003. Darperir ac asesir y rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen, darparwyd rhaglen Blynyddoedd Cynnar CACHE lefel 2 yn y Coleg ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 12 a 13 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Mae'r ddarlith wraig yn mynychu'r Coleg am ddau ddiwrnod yr wythnos a threfnir lleoliadau gwaith Blynyddoedd Cynnar ar gyfer y dysgwyr trwy law'r Coleg. Darperir gweddill yr amserlen gan Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Yn ogystal, darperir cwrs Adeiladwaith (BTEC lefel 2) a chwrs Peirianneg (PEO lefel 1 a 2) i flynyddoedd 10 ac 11. Mae partneriaeth agos wedi ei feithrin rhwng yr Ysgol ag Ysgol Llanhari a Choleg Meirion Dwyfor er mwyn gwireddu dyheadau ein dysgwyr ôl-16 i astudio Seicoleg safon Uwch. Daw athro o Lanhari i'r Ysgol i addysgu ein myfyrwyr bl 12, a darperir gwersi fideo-gynadledda gan Goleg Meirion Dwyfor ar gyfer dysgwyr bl 13. Ceir partneriaeth lwyddiannus arall rhwng yr Ysgol â Choleg Paratoi Milwrol Caerdydd sy'n cynnig achrediaeth sgiliau allweddol ehangach (Gwella Dysgu a Pherfformiad a Gweithio Gydag Eraill; lefelau 1 a 2) ynghyd â'r Wobr Dug Caeredin (Efydd ac Arian).

I grynhoi felly dyma'r cyrsiau a ddilynir gan ein disgyblion:

### Coleg y Barri:

Adeiladwaith - BTEC Dyfarniad Cyntaf Amgylchedd Adeiladol, 14 - 16

Peirianneg - Perfformio Gweithredoedd Peirianneg (PEO) - gan gynnwys opsiynau peirianneg drydanol a pheirianneg fecanyddol (lefelau 1 a 2) , 14 - 16

Trin Gwallt - Gwasanaethau Salon City and Guilds Lefel 1, 14 - 16.

Cwrs "Ysgol Haf" Adwerthu Skillsmart, bl 11

CACHE Lefel 2, 16 - 19

### Coleg Paratoi Milwrol Caerdydd:

Gwella Perfformiad a Dysgu eu Hunain, lefel 1 a 2, 14 - 16

Gweithio Gydag Eraill Caeredin, Efydd ac Arian, 14 - 16

BTEC Gwasanaethau Cyhoeddus Tystysgrif Gyntaf, lefel 2 (cychwyn Medi 2010)

### Ysgol Gyfun Llanhari:

Seicoleg Safon Uwch - bl 12, 16 - 19

### Coleg Meirion Dwyfor:

Seicoleg Safon Uwch - bl 13, 16 - 19

### Cyrsiau ôl-16 Galwedigaethol Ysgol Gyfun Bro Morgannwg:

BTEC Gwobr Genedlaethol Chwaraeon, lefel 3

BTEC Gwobr Genedlaethol Cerdd (perfformio), lefel 3

BTEC Gwobr Genedlaethol Twristiaeth a Theithio, lefel 3 (cychwyn Medi 2010)

BTEC Tystysgrif a Diploma Cyntaf Twristiaeth a Theithio, lefel 2

BTEC Tystysgrif a Diploma Cyntaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol, lefel 2

Cynigwyd TGAU Gymhwysol Arlwyo yn 2006 ond ni chafwyd diddordeb wedi hynny.

### Cyrsiau 14 - 16 Galwedigaethol Ysgol Gyfun Bro Morgannwg:

BTEC Tystysgrif Gyntaf Twristiaeth a Theithio, lefel 2

Cyrsiau Technoleg Gwybodaeth AiDA, CiDA, CiDA est, DiDA lefel 1 a 2

TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol

BTEC Gwobr Gyntaf Sgiliau Gwaith, lefel mynediad, 1 a 2

BTEC Tystysgrif Gyntaf Gwyddoniaeth, lefel 2 (cychwyn Medi 2010)

BTEC Tystysgrif Gyntaf Busnes, lefel 2 (cychwyn Medi 2010)

### Trefniant Trawsffiniol gyda Rhondda Cynon Taf:

CACHE lefel 3 mewn cydweithrediad â Mudiad Ysgolion Meithrin a Cham Wrth Gam (2010)

Mae'r gweithgareddau a restrir uchod yn gytûn â chanfyddiadau Rhwydwaith 14 - 19 Awdurdod Bro Morgannwg a adnabyddodd y byddai'r canlynol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc:

Adfywiad trefol Glannau'r Barri

Datblygiad Parc Busnes Aerofod

Twf yn niwydiannau adwerthu, lletygarwch ac arlwyo

Datblygiadau chwaraeon yng Nghaerdydd (Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ym Mae Caerdydd)

Datblygiad y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant

Bid ar gyfer Academi Hyfforddi Amddiffyn yn St Athan

Ceir potensial am dwf yn y diwydiannau cemegol, aerofod, bwyd, cyllid a thwristiaeth. Mae'r prif gyflogwyr preifat yn cynnwys British Airways, DARA, Bosch, Tesco a Dow Corning. Mae nifer fawr o drigolion y Fro yn cael eu cyflogi yng Nghaerdydd neu Benybont, sef 45 % o drigolion yn ennill swyddi tu allan i'r Fro.

### Newidiadau Strwythurol

Rôl y tri Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog yw hybu cydweithio ar draws ffiniau'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 o fewn eu dalgylchoedd unigol i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy greu cyrsiau galwedigaethol newydd ôl-16 ar draws ffiniau'r Rhwydweithiau Dysgu. Er bod dau o'r tri Fforwm yn ifanc iawn, yr argraff gadarn yw bod yna rôl i'r tri Fforwm i sicrhau ehangu ar y ddarpariaeth **o fewn** y tri Fforwm a hefyd trwy ddatblygu cysylltiadau a phrosesau cydweithio **ar eu traws.** Yr unig ofn yw bod y fforymau yma yn ail-greu'r trefniadau sy'n bodoli'n barod o fewn y rhwydweithiau lleol ac yn cynyddu pwysau gwaith y rhai hynny yn yr ysgolion sy'n gwneud y gwaith strategol cwricwlaidd ac sy'n cael eu galw i sawl pwyllgor trafod ar yr un pryd. Mae camau hefyd ar y gweill i sicrhau bod pob darparwr hyfforddiant hefyd i'w cynnwys yn y Fforymau hyn (eisoes yn aelodau o fforwm Gogledd Cymru). Mae unrhyw drafod strategol ar y cyd i'w groesawu mewn cyfnod ansefydlog a phrin o arian.

### Materion penodol a brofir o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae yna rwystredigaethau am y diffyg sylw gwirioneddol a geir i sicrhau hawliau dysgwyr i addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw darpariaeth ad-hoc dwyieithog yr un peth â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. **Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi llwyddo hyd yn hyn o ganlyniad i'r egwyddor o drochi ac ni ddylai'r Agenda Drawsnewid beryglu hyn.** Mae angen ystyried yn ofalus natur unigryw ysgolion penodedig cyfrwng Cymraeg a'r her o gynnal dosbarthiadau llai/bach. Nid yw'n ymarferol i ddisgyblion i deithio milltiroedd er mwyn cyfuno dosbarthiadau gan fod disgyblion ym Mro Morgannwg, er enghraifft, yn teithio dros ddeugain munud i gyrraedd yr Ysgol yn y bore yn barod. Byddai eu cludo am hanner awr arall i Gaerdydd neu i RCT yn golygu taith ychwanegol o hanner awr o leiaf. Dyma gryfder y syniad o athrawon yn teithio neu ariannu datblygiadau lleol. Dyw'r atebion sy'n weithredol bosib mewn sefyllfaoedd trefol cyfrwng Saesneg ddim yn ateb yr her o ran sicrhau hawlfraint i addysg cyfrwng Cymraeg mewn llawer iawn o ardaloedd yng Nghymru. Dyma rai o'r heriau sy'n wynebu darparu profiadau cyfrwng Cymraeg:

cynnal grwpiau bach

cynnal costau ffurfio grwpiau ar y cyd rhwng dau neu fwy o sefydliadau gan fod y costau trafnidiaeth yn rhai sylweddol

dod o hyd i bersonél sy'n medru darparu trwy gyfrwng y Gymraeg y enwedig wrth ymestyn y ddarpariaeth alwedigaethol ar Lefel 2 a fwy byth ar Lefel 3 a chynnal y ddarpariaeth wrth i staff symud ardal.

parhau i gynhyrchu deunyddiau addysgu a dysgu i foddio'r ymestyniad yn y ddarpariaeth

sicrhau bod pob agwedd o'r asesu ac achredu ar gael sy'n rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Effaith ar staff addysgu.** Mewn nifer o ardaloedd nid yw'r staffio angenrheidiol ar gael i ddarparu'r nifer ac ystod o gyrsiau galwedigaethol sy'n statudol ofynnol. Bydd y gofynion yn anoddach fyth ar gyfer Medi 2011 pan ddaw'r gofynion statudol i rym ar gyfer cyrsiau lefel 3 ôl-16. Rydym ni fel Ysgol wedi gweithio gyda'r Coleg cyfagos i gyflwyno cyrsiau ychwanegol ond mae'r

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei beryglu o ganlyniad i gyfnod mamolaeth neu staff yn symud ac felly cyfundrefn o gyflwyno yn y Saesneg gyda chynorthwyydd dysgu Cymraeg i'r disgyblion sy'n bodoli dros dro. Nid dyma ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ei iawn ryw, nac ychwaith yr hyn a ddewiswyd gan y rhieni a'r disgyblion wrth iddynt ddewis Ysgol Gyfun Bro Morgannwg fel Ysgol. Yn ôl yr arweiniad diweddaraf gan LlCC mae'r cyrsiau a ddarperir gan gyrsiau Coleg y Barri felly yn gyrsiau cyfrwng Saesneg gan eu bod yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Saesneg. Buodd y cwrs Trin Gwallt yn gwrs cyfrwng Cymraeg tan i'r ddarlith wraig adael y coleg ar gyfnod mamolaeth. Mae ymatebion arolygon dyheadau rhieni am addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg, yn codi cwestiynau mwy fyth am argaeledd staff sy'n medru darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ystod oedran. Mae achos i ddadlau dros gyflwyno cyrsiau hyfforddi athrawon yn y pynciau hynny sy'n gweddu i'r Mesur Sgiliau yn ogystal â'r pynciau "traddodiadol".

**Uno Colegau Addysg Bellach:** Mae'n rhaid i mi ddatgan yn glir fod angen i i'r uniad yng Nghaerdydd a'r Fro roi ystyriaeth weithredol i gynllun datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y coleg 'newydd'. Dylai hynny gynnwys camau gweithredol yn erbyn llinellau amser diamwys o sut yr eir ati i sicrhau argaeledd cyrsiau a fydd yn sicrhau dilyniant a pharhad o ran medrusrwydd dysgwyr yn y Gymraeg yn ogystal â sicrhau cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y ddarpariaeth ar gael gyda chanolfannau lloeren a/neu staff yn teithio. Ni ddylai disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg orfod teithio'n ymhellach a derbyn llai o ddewis na'r disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg.

**A ydy dyblygu darpariaeth a bylchau yn y ddarpariaeth yn lleihau?** Yn sicr o ran sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a pheidio â chyfaddawdu polisïau ysgolion ac awdurdodau parthed hynny, bydd elfen o ddyblygu cyrsiau yn parhau o ganlyniad yr anawsterau trefniadol (e.e. pellteroedd teithio) neu gostau ariannol (e.e. cost trafnidiaeth) a allai ddileu achosion o ddyblygu. Bydd angen cydnabod na ellir cael gwared â dyblygu yn llwyr gan fod yr elfen o bellter teithio yn allweddol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

## Newidiadau o ran Dewisiadau.

Gall y tri Fforwm fod yn gatalyddion i hybu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y tri Fforwm ac ar draws y Fforymau ond nid os ydynt yn cynyddu'r costau rheoli a threfnu ar draul y dysgu ac addysgu, ac nid os ydynt yn gwneud yr un gwaith â'r pwyllgorau a rhwydweithiau sy'n bodoli yn barod, e.e. yn y de-ddwyrain.

**A oes yna mwy o ddewisiadau galwedigaethol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11?** Yn ddi-os mae yna lawer mwy o ddewis ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9. Mae yna rywfaint o gynnydd yn y dewisiadau a gynigir i ddisgyblion Blwyddyn 11 a rhoddir dewis rhydd i'r disgyblion er mwyn hysbysu'r colofnau opsiwn terfynol. Rhoddir cyfle i'r dysgwyr nodi unrhyw rwystredigaethau gan gynnwys cyrsiau sydd ddim yn cael eu cyflwyno, ac o ganlyniad cyflwynwyd Economeg llynedd a threfnwyd darpariaeth ar gyfer Seicoleg. Ni nodwyd yr angen gan unrhyw ddysgwr i ddarparu cwrs galwedigaethol newydd. Eto mae her sylweddol o ran ehangu'r fwydlen alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chynnal a gwarantu ansawdd. Rhaid cofio hefyd fod ffocysu ar y cynnydd o ran y fwydlen alwedigaethol yn anorfod yn arwain at faint gyfartalog llai. Hynny yw, mae'r costau uned yn cynyddu. Yn ail, mae yna wahanol bynciau 'academaidd' mewn gwahanol ardaloedd yn cael eu gwasgu'n ddirfawr gan y twf yn y cyrsiau galwedigaethol. Mae perygl i hynny gyfyngu a lleihau'r dewis ar gyfer y dysgwyr sydd am ddilyn y cyrsiau hynny. Mae posibilrwydd y bydd rhai o'r pynciau hyn yn anodd iawn eu cynnal yn y dyfodol. Gallai cyrsiau 'academaidd' prif lif creiddiol gael eu diddymu mewn gwahanol sefyllfaoedd lleol gan godi cwestiynau sylfaenol am statws rai pynciau o'r fath o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r angen i gynnwys y pynciau yma o fewn strategaeth rhwydwaith lleol.

**A oes cwricwla lleol yn cael eu sefydlu/amserlennu ac effaith hynny ar staff addysgu a darlithwyr?** Defnyddiwn offer fideo-gynadledda ym Mro Morgannwg i gyflwyno cwrs Seicoleg. Mae ansawdd y ddarpariaeth yma yn dibynnu'n llwyr ar ansawdd yr unigolyn sy'n "addysgu". Ein profiad ni hefyd yw bod y ddarpariaeth yn ddrud ac yn gofyn am fentora yn yr Ysgol sy'n derbyn y cwrs digidol, sydd wedyn yn ychwanegu at y gost. Mae dysgwyr Coleg Paratoi Milwrol Caerdydd yn colli diwrnod o Ysgol pob wythnos, ac mae hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y dysgwr a'r staff dysgu i sicrhau bod y dysgwr yn gwneud yn iawn am y gwersi a gollir. Mae'r dysgwyr yn mynychu sesiynau tair awr yn y Coleg. Er mwyn caniatáu hyn a lleihau'r effaith negyddol ar addysg y dysgwr, mae'r dysgwyr yn dewis cyrsiau'r coleg fel dau opsiwn. Mae'r ddau opsiwn hynny yn digwydd yn gyson yn y prynhawn sydd felly yn effeithio ar bob pwnc arall sy'n digwydd yn yr Ysgol o fewn y colofnau opsiwn hynny. Daw'r drydedd awr wedi oriau Ysgol ac felly mae angen i'r disgyblion wneud trefniadau teithio adref eu hunain.

**A oes yna gynnydd yn y gynhaliaeth bersonol i ddisgyblion, megis Anogwr Dysgu.** O ran effaith Llwybrau Dysgu 14-19, hyfforddwyd nifer o staff o wahanol fathau i fod yn Anogwyr Dysgu yng Nghymru. Ni phrofodd hynny i fod yn ddi-broblem. Mae gwaith cynnal ac arwain disgyblion wedi bod yn gryf yn yr Ysgol yma ers tro ac nid oeddwn yn croesawu'r gorchymyn a ddaeth i ryddhau unigolion i fynd ar gyrsiau penodol hir a chostus "Anogwyr Dysgu" fel petai dim byd wedi bodoli cyn y Mesur newydd. Fel nifer o bethau eraill fe fyddai cytuno ar yr hawlfraint o gyngor i ddisgyblion yn unig ac yna mesur llwyddiant yr ysgol wrth gwrdd â'r hawlfraint yma wedi bod yn well defnydd o arian ac amser. Cafwyd hi'n anodd canfod unigolion nad oeddynt yn athrawon a oedd yn medru'r Gymraeg a hefyd roedd y penodi yn ychwanegu at gost staffio'r Ysgol. Roedd hyn yn boendod o ganlyniad i lefel gwariant isel yr awdurdod o gymharu ag awdurdodau eraill. Yn wyneb toriadau a yw ysgolion yn mynd i gynnal y lefelau staffio atodol ar draul y staff hynny sy'n addysgu?